# Cofnodion Cyngor Bro Llangwm 21.01.20

PRESENNOL – Sioned Jones, Gwyndaf Jones, Awel Hughes, Gwynfryn Jones (cadeirydd) Rhian Ellis (Clerc) Mel ab Owain Unllais Cymru

YMDDIHEURIADAU – dim

1. Cofnodion Pwyllgor 27.11.19 Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan Gwyndaf Jones ac eilwyd gan Sioned Jones

2. Materion yn Codi o'r cofnodion

    a. Neuadd fach – Heb gael ail bris gan fod Dewi Jones rhy brysur I ymgymeryd a'r gwaith. Penderfynwyd nad ydym am gael ail bris.

    b. Cynrhychiolwyr newydd – Cafywd cyngor gan Gonwy ar y ffordd ymlaen a pendrfynwyd dilyn y canllawiau priodol.

3. Swyddog Penodol Cyllidol – Cynigwyd Rhian Ellis yn Swyddog Cyllidol gan Gwynda Jones ag eilwyd gan Awel Hughes

4. Cynigwyd tair dogfen yn Polisiau Cyngor Llangwm.

    a. Cod Ymddygiad – cynigwyd gan Awel Hughes ac eilwyd gan Gwyndaf Jones

    b. Rheolau Statudol – cynigwyd gan Gwyndaf Jones ac eilwyd gan Awel Hughes

    c. Rheoliadau Ariannol cynigwyd gan Awel hughes a eilwyd gan Gwyndaf Jones.

5. Trafodwyd y Precept

6. Y Wefan – nodwyd bod rhaid I bawb ddatgan eu buddiannau o fewn y Plwy.

7. Caeau Chwarae. Cynigwyd ein bod yn edrych I fewn a yw yn bosib cael rhywun gael golwg ar yr offer chwarae yn y cae. A hefyd a yw'n bosib cael y si so a swing yn ol I Dinmael.

8. Y Goeden wrth yr arhosfa bws – Penderfynwyd gofyn i Mr Hughes Nant y Pyd am bris I dacluso y goeden.

Dyddiad Cyfarfod Nesa' 18.03.2020 am 8 o'r gloch